| Teitl y Swydd | **Cynorthwyydd Cyllid dan Hyfforddiant** |
|---|---|
| Tîm | Canolog |
| Cyflog | £21,000 - £22,000 |

Trosolwg o'r **rôl**

Dyma gyfle cyffrous i ymuno â thîm Orchard fel Cynorthwyydd Cyllid dan Hyfforddiant. Mae'r swydd hon yn berffaith i rywun sydd am ddechrau ei yrfa ym maes Cyllid a dysgu o'r gwaelod i fyny fel rhan o dîm Cyllid prysur. Mae hon yn swydd lefel mynediad gyda'r cyfle i ddatblygu o fewn y rôl dros amser.

Mae pencadlys Orchard wedi'i leoli yng nghanol Caerdydd, ond rydym yn cynnig y cyfle i weithio o bell fel rhan o'n polisi gweithio hyblyg.

I wneud cais, anfonwch lythyr eglurhaol a'ch CV at ymunoartim@thinkorchard.com. Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ddiwedd Mehefin/dechrau Gorffennaf.

**Cyfrifoldebau** a thargedau cyffredinol

**Dyletswyddau Cyllid**

- Rheoli'r Mewnflwch Cyfrifon
- Delio â'r Cyfriflyfr Prynu – a fydd yn cynnwys pob agwedd ar ddelio â chyflenwyr, prosesu anfonebau prynu, cysoni datganiadau cyflenwyr ac ymholiadau cyffredinol/ad hoc.
- Treuliau Staff/Treuliau Cerdyn Credyd – a fydd yn golygu prosesu a chysoni'r holl dderbyniadau a'u prosesu er mwyn eu talu.
- Adrodd i'r Cynorthwyydd Cyllid yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod terfynau amser wythnosol/misol yn cael eu bodloni.
- Cynorthwyo'r Cynorthwyydd Cyllid gyda chysoniadau wythnosol a misol.
- Delio ag unrhyw geisiadau *ad hoc* gan y Cynorthwyydd Cyllid a'r Pennaeth Cyllid.

**Profiad** sy'n ofynnol

**Hanfodol**

- Profiad o ddefnyddio Office suite, yn enwedig Excel a Word
- Diddordeb mewn datblygu gyrfa ym maes Cyllid

**Pecyn buddion** Orchard

Ein pobl sy'n ein gwneud ni mor arbennig. Dyna pam rydym yn cynnig pecyn buddion hael i bawb sy'n rhan o'n tîm. Dyma enghraifft o'r buddion sydd gennym:

- Cyfleoedd gweithio hyblyg ac o bell
- Oriau craidd 10-4
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol
- Awr lles bob mis
- Cyllideb hyfforddi hael
- Yswiriant meddygol preifat
- Cynllun beicio i'r gwaith
- Pensiwn o 8% (mae hynny'n cyfateb i 4% gennych chi a 4% gennym ni)
- Digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol (fel diodydd diwedd mis, clwb ffilm a phêl-droed 5 bob ochr)

Blaengar. Parchus. Dychmygys. Ystyriol. Rhagoriaeth.